# Adroddiad: Symposiwm Rhywogaethau
## 10 Medi 2016, Plas Tan y Bwlch



Cynhaliodd Parc Cenedlaethol Eryri a Cofnod Symposiwm Rhywogaethau ar y cyd ym Mhlas Tan y Bwlch ar y 10fed o Fedi 2016.

Cafodd y 22 a oedd yn bresennol ddigon o gyfle i gymysgu a rhannu eu diddordebau cofnodi, gyda sawl arddangosfa ar fwrdd yn rhoi ffocws ar gyfer trafod (ffyngau, Buglife, OPAL, Sea Watch, BSBI, Cymdeithas Arachnolegol Prydain).

Gyda mymryn o newid i'r amserlen, agorodd Ian Spence y Symposiwm gyda'i gyflwyniad: Defnyddio BirdTrack. Dangosodd Ian bod pwlio cofnodion adar o bob cwr o Ewrop yn ei gwneud yn hawdd i weld patrymau mudo blynyddol.



Wedyn cafwyd sgwrs gan Clare Dinham ar ei rôl gyda Buglife a gwnaed cysylltiadau lleol defnyddiol gyda'r entomolegwyr a oedd yn bresennol.

Ar ôl cinio, cafwyd cyflwyniad byr gan Bob Griffiths ar OPAL yng Ngogledd Cymru, gan dynnu sylw at yr arolygon amrywiol maen nhw'n eu darparu.

Wedyn arweiniodd David Thorpe o CNC arddangosfa o arolwg ar famaliaid glan afon ar Afon Dwyryd, a dangoswyd tail Dyfrgwn i ni, a hefyd rafftiau mincod a thiwbiau arolygu chwistlod dŵr.

Cafwyd sgwrs olaf y dydd gan Tony Hunter o Amgueddfa'r Byd yn Lerpwl. Disgrifiodd Tony y gwaith y mae'r amgueddfa'n ei wneud ar Chwilen Enfys brin yr Wyddfa, gan nodi pa mor anodd yw dod o hyd iddi, er gwaethaf ei lliw seicadelig.



Cafwyd dwy arddangosfa samplu arall ochr yn ochr: Technegau Samplu Infertebrata (Richard Gallon) a Helfa Ffyngau (Charles Aron).

Gyda chyfuniad o waith maes, sgyrsiau ac arddangosfeydd, roedd y Symposiwm Rhywogaethau yn llwyddiant mawr, ac roedd y tywydd da a'r cyfleusterau rhagorol yn y Plas o help mawr gyda hynny hefyd.



PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK

cofnod
Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru
North Wales Environmental Information Service

WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP